# Ymgynghoriad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

| Tystiolaeth i'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** ar gyfer Craffu Cyfnod 1 **Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)** | Evidence submitted to the **Children, Young People and Education Committee** for Stage 1 scrutiny of the **Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Bill** |
|---|---|
| CADRP-503 | CADRP-503 |

Cyflwynwyd yr ymateb hwn yn Gymraeg.

## Amdanoch Chi

Sefydliad: Mudiad Meithrin

## 1 Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)?

- Ydw

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

Mae Mudiad Meithrin o'r farn y bydd y newid cyfreithiol hwn yn gwella a chryfhau hawliau plant Cymru. Mi fydd y newid hwn hefyd yn gwella amddiffyniad plant rhag cael eu cam-drin. Mae Mudiad Meithrin wedi bod yn eiriolwyr cryf dros hawliau plant i beidio cael eu taro a'u disgyblu mewn modd sydd yn tanseilio eu urddas personol. Fel mudiad sydd yn addysgwyr plant bach mae Mudiad Meithrin yn gwybod nad trwy gosbi, codi ofn a bod yn greulon mae cefnogi datblygiad plant bach.

Bydd y newid cyfreithiol hwn yn rhoi neges glir i bawb o'r hyn sydd yn dderbyniol ac yn cryfhau'r negeseuon hollbwysig rydym ni yn ei arddel sef mae trwy anogaeth, arweiniad a charedigrwydd mae gwella a llywio datblygiad y plentyn bach.

### 1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

Mae Mudiad Meithrin o'r farn taw trwy ddeddfwriaeth mae angen mynd i'r afael a'r sefyllfa anomalus hwn i sicrhau fod gan bob aelod o gymdeithas yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag cael eu cam-drin yn gorfforol.

## 2 Gweithredu’r Bil

### 2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu’r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

Awgrymwn bod hyn yn cynnwys

Strategaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd sydd yn gynhwysfawr.

Strategaeth Cefnogaeth Rhieni sydd yn gynhwysfawr. Awgrymwn yma nad ydy'r sefyllfa bresennol ble ac modd derbyn arweiniad a chefnogaeth magu plant os yw rhywun yn

a) byw mewn ardal Dechrau'r Deg NEU

b) yn cyrraedd trothwy uchel o broblemau gyda'u sgiliau magu plant

yn ddigonol. mae angen mynediad agored i bawb a chynnig agored i bawb i gael dosbarthiadau neu gefnogaeth gyda'u sgiliau magu plant.

Hefyd rydym o'r farn bod angen hyfforddiant i weithwyr sydd yn dod i gysylltiad gyda phlant a'u rhieni fel athrawon ag ymarferwyr y blynyddoedd cynnar er mwyn gallu pasio negeseuon a chyngor ymlaen i rieni ynglŷn a'r newid deddfwriaethol.

### 2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

Nid ydy'r camau sydd wedi eu hamlinellu yn y Bil yn cynnig datblygu'r math o wasanaethau magu plant gwyneb i wyneb yr hoffai Mudiad meithrin ei weld. Nid yw chwaith yn rhoi gwybodaeth am gynlluniau i hyfforddi'r gweithlu gofal plant ag addysg yn ddigonol.

## 3 Canlyniadau anfwriadol

### 3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o’r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

Hyd yma nid oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yr ydym ni fel mudiad meithrin yn gallu eu rhagweld.

Mae'n debygol mae'r her fwyaf fydd sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r newid cyfreithiol ac yn hyderus a gwybodus am ble i gael gwybodaeth ychwanegol a strategaethau addas i ddefnyddio wrth fagu plant.

## 4 Goblygiadau ariannol

### 4.1 A oes gennych farn ar oblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o’r Memorandwm Esboniadol)? Os na, ewch i gwestiwn 5.1

Nid oes gan Mudiad Meithrin brofiad digonol o gostau tebygol Ymgyrch Addysgu'r Cyhoedd / gwasanaethau magu plant / costau erledigaethau a chynnig gwasanaethau cymdeithasol i wneud sylwadau am goblygiadau ariannol y Bil hwn.

## 5 Ystyriaethau eraill

### 5.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

Croesawn y newyddion da hwn ar ran plant Cymru ac edrychwn ymlaen i fod yn rhan o wireddu a chyfrannu at hinsawdd magu plant mwy cadarnhaol sydd yn parchu hawliau plant fel unigolion.